



Canllaw i fusnesau bach ynghylch adennill dyled drwy'r Llys Sirol

1. Rhagymadrodd

Mae'r daflen hon yn sôn am y math o bethau i'w cadw mewn cof wrth ystyried mynd i'r llys. Gallwch gychwyn hawliad ar-lein hefyd, drwy fynd i www.moneyclaim.gov.uk.

Os bydd angen cymorth arnoch chi i lenwi'r ffurflenni, gallwch ffonio'r llinell gymorth ar 0845 6015935 neu gael cymorth mewn unrhyw swyddfa llys. Gallwch gael gwybodaeth am weithdrefnau'r llys a chopiau o'r holl ffurflenni y gallech chi fod eu hangen drwy fynd i www.justice.gov.uk. Mae cyfeiriadau a rhifau ffôn pob un o ganolfannau gwrandawiadau'r Llys Sirol yn eich ardal chi wedi'u rhestru yn y llyfr ffôn dan **Llysoedd(Courts)**. Mae'r llysoedd hefyd yn cael eu rhestru ar ein gwefan www.justice.gov.uk.

Mae'r daflen hefyd yn esbonio'r hyn y gallwch ei ddisgwyl ar ôl mynd i'r llys os yw eich hawliad:

- heb ei wrthwynebu
- wedi'i wrthwynebu.

Pam siwio?

Rydych yn gwmni neu fusnes sydd ag arian yn ddyledus i chi. Rydych wedi rhoi cynnig ar eich holl ddulliau arferol o adennill dyled, ond heb lwyddo. Gyda phopeth arall wedi methu, rydych chi'n ystyried siwio.

Mae'r daflen hon:

- yn nodi rhai o'r pethau i'w cadw mewn cof wrth ystyried mynd â rhywun i'r llys; ac
- yn dweud wrthyfych chi beth i'w ddisgwyl.

Gallai eich helpu i benderfynu a yw achos llys yn addas ar eich cyfer neu beidio.

Gall mynd â rhywun i'r llys fod yn ddull effeithiol o adennill dyled. Cynlluniwyd y gweithdrefnau i fod yn gyflym a hawdd eu defnyddio. Ond os ydych chi'n penderfynu mynd i'r llys, cofiwch hyn:

- dylech wneud yn siŵr eich bod yn gwybod cymaint â phosib am eich cwsmer cyn cychwyn achos llys, hy, bydd gofyn i chi roi eu henw llawn, a'u cyfeiriad llawn, gan gynnwys cod post, i'r llys;
- dylech wneud yn siŵr eich bod yn deall gweithdrefnau'r llys a'ch cyfrifoldebau chi;
- dylech geisio cyngor cyfreithiol, lle bo hynny'n briodol;
- dylech ystyried yn ofalus a allwch chi fforddio'r amser a'r gost; a
- dylech weithredu'n gyflym.

2. A yw'r achos yn debygol o gael ei wrthwynebu?

Rhaid i chi ystyried a ydych chi'n debygol o ennill eich hawliad neu beidio.

Mae'r rhan fwyaf o hawliadau a gychwynnir yn y Llys Sirol, gan fusnesau neu gwmnïau, yn ymwneud ag arian sy'n ddyledus am waith a wnaethpwyd a/neu nwyddau a gyflenwyd.

Yn aml, nid yw'r mathau hyn o hawliadau yn cael eu gwrthwynebu. Golyga hyn y gall hi fod yn syml iawn cael gorchymyn llys am daliad ('dyfarniad'). Mae'r diagram ar dudalen 18 yn dangos i chi pa mor gyflym y gellir gwneud hyn.

Os ydych chi'n credu y gallai eich cwsmer wrthwynebu eich hawliad neu os nad ydych chi'n siŵr a yw'n debygol o lwyddo, mae'n bosib yr hoffech chi ofyn cyngor cynrychiolydd cyfreithiol neu asiantaeth gynghori leol. Os ydych chi'n fusnes bach, gallwch gael cyngor cyfreithiol am ddim drwy ddefnyddio'r Cynllun 'Cyfreithwyr ar gyfer eich Busnes'. Gallwch gael mwy o wybodaeth am y cynllun hwn drwy ffonio 020 7405 9075.

Dulliau amgen o ddatrys anghydfodau

Mae'n bosib hefyd yr hoffech chi ystyried defnyddio gweithdrefn dulliau amgen o ddatrys anghydfod cyn dechrau proses llys. Ni fwriadwyd cynlluniau Dulliau Amgen o Ddatrys Anghydfod (ADR) i ddisodli'r llysoedd, ond maent yn gallu bod yn fwy manteisiol na mynd i'r llys. Mae'r manteision yn cynnwys:

- maent yn fwy hyblyg;
- maent yn datrys eich problem yn gynt;
- maent yn llai o straen; ac
- maent yn costio llai o arian i chi.

Mae cyfryngu yn un dull amgen o ddatrys anghydfod (ADR), a gall helpu i ddod o hyd i ateb i anghydfod os yw hi'n fuddiol i chi gynnal perthynas barhaus gydag unigolyn neu sefydliad.

Ar gyfer y mwyafrif o hawliadau dan £10,000, mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cynnig cyfryngu di-dâl drwy'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain. Mae pob cyfryngwr yn aelod hyfforddedig o staff y llys a byddant yn ceisio eich helpu i ddod o hyd i ffordd gyflymach a rhatach o ddatrys yr hawliad sy'n gallu osgoi gwrandawriad ffurfiol. Mae'r daflen **EX370 – Y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain** yn rhoi mwy o wybodaeth am gyfryngu a sut i gael mynediad ato.

Gallwch ddod i wybod mwy am gyfryngu yn www.civilmediation.justice.gov.uk

3. Ga' i fy arian?

Dylech bwysu a mesur yn ofalus a yw mynd i'r llys yn debygol o gael yr arian sy'n ddyledus i chi. Mae'n bwysig cofio na fydd y llys yn gallu eich helpu os nad oes gan eich cwsmer unrhyw arian, asedau neu unrhyw beth arall o werth.

Os yw eich cwsmer yn gwmni cyfyngedig, dylech gofio ei bod hi'n bosib nad oes yna unrhyw asedau yn enw'r cwmni ei hun. Er ei bod hi'n bosib na fyddai hyn yn eich rhwystro rhag cael dyfarniad, fe allai ei gwneud hi'n anodd pe bai angen i chi gymryd camau pellach i wneud i'ch cwsmer dalu.

Beth os yw fy nghwsmer yn wynebu dyfarniadau eraill?

Os oes dyfarniadau llys yn erbyn eich cwsmer eisoes, fe allai ei gwneud hi'n llai tebygol y bydd eich dyled yn cael ei thalu.

Gallwch ganfod a oes gan unigolyn neu gwmni mewn cyfeiriad penodol ddyfarniadau llys heb eu bodloni (heb eu talu) yn eu herbyn drwy bori drwy'r Gofrestr Dyfarniadau, Gorchmynion a Dirwyon. Codir ffi fechan am hyn.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am bori drwy'r Gofrestr drwy gysylltu â Registry Trust Ltd, 153-157 Cleveland Street, Llundain W1T 6QW (rhif ffôn 020 7380 0133), neu drwy ymweld â www.trustonline.org.uk.

Cofiwch, gallwch bori drwy'r Gofrestr am wybodaeth unrhyw bryd, er enghraifft, wrth benderfynu ynghylch cynnig credyd yn y lle cyntaf. Nid oes rhaid i chi fod yn ystyried achos llys cyn i chi wneud hyn.

4. Alla' i fforddio'r amser?

Cyn cychwyn achos llys, ystyriwch faint o amser y gallwch fforddio ei dreulio'n mynd ar ôl y ddyled.

Os nad yw'r hawliad yn cael ei wrthwynebu, dylai cychwyn ffurflen hawlio a chael dyfarniad fod yn broses gyflym a syml. Gallwch anfon eich ffurflen hawlio i Ganolfan Hawlio Arian y Llysoedd Sirol, PO BOX 527, Salford, Manceinion Fwyaf M5 0BY neu gychwyn eich hawliad ar-lein yn www.moneyclaim.gov.uk. Os gwnaethoch chi gychwyn eich hawliad ar-lein, gallwch ohebu drwy e-bost. Ond ni fydd hynny'n eich arbed rhag treulio amser yn gweithredu eich hawliad (er enghraifft, drwy lenwi ffurflenni a dweud wrth y llys beth i'w wneud nesaf) ac fe allai fod rhaid i chi dalu ffioedd ychwanegol.

Bydd yn fwy o draul ar eich amser os yw eich hawliad yn cael ei wrthwynebu, neu os oes angen i chi orfodi'r dyfarniad oherwydd bod eich cwsmer yn dal i beidio â thalu. Os yw'ch hawliad yn cael ei wrthwynebu, mae'n bosib y bydd angen ichi fynd i wrandawriad llys.

Cofiwch, eich cyfrifoldeb chi yw dweud wrth y llys sut rydych chi am fwrw ymlaen â'ch hawliad. Dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, ni all y llys weithredu ar ei liwt ei hun.

5. Alla' i fforddio'r gost?

Mae'n bosib na fydd angen i chi ddefnyddio cynrychiolydd cyfreithiol. Ond bydd rhaid i chi dal ffi i'r llys am gychwyn ffurflen hawlio, a bydd ffioedd pellach i'w talu os bydd eich hawliad yn cael ei wrthwynebu. Bydd rhaid i chi dalu ffioedd hefyd os bydd angen i chi orfodi'r dyfarniad. Os ydych chi'n cael dyfarniad, bydd unrhyw ffioedd a dalwch, fel arfer, yn cael eu hychwanegu at yr arian sy'n ddyledus.

Gallwch gael taflen sy'n cynnwys manylion ffioedd cyfredol o unrhyw un o ganolfannau gwrandawriadau y Llys Sirol neu drwy ein gwefan yn www.justice.gov.uk

Cofiwch, fel ag sy'n wir gyda'r ddyled, nad oes unrhyw sicrwydd y byddwch yn adennill ffioedd y llys.

Cofiwch hefyd, y gallech chi wynebu costau pellach pe bai eich hawliad yn cael ei wrthwynebu.

6. Beth os yw fy hawliad yn cael ei wrthwynebu?

Os yw eich hawliad yn cael ei wrthwynebu, ei fod am swm penodol a bod eich cwsmer yn unigolyn sy'n byw neu'n rhedeg ei fusnes mewn ardal llys arall, trosglwyddir yr hawliad i ganolfan wrandawiadau Llys Sirol lleol eich cwsmer ar gyfer y gwrandawriad.

Os ydych chi a'r diffynnydd wedi nodi ar eich holiadur cyfarwyddiadau eich bod yn fodlon rhoi cynnig ar gyfryngu a bod eich hawliad am lai na £10,000, bydd y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain yn ceisio trefnu i gyfryngu cyn i'r hawliad gael ei drosglwyddo i ganolfan wrandawiadau leol eich cwsmer. Os caiff eich hawliad ei drosglwyddo, mae'n dal yn bosib y bydd Barnwr yn cyfeirio eich achos i'r Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain ac, os felly, bydd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cysylltu â chi i esbonio beth yw'r camau nesaf.

Os yw eich cwsmer yn gwmni cyfyngedig a'ch bod yn credu y gallai eich cwsmer wrthwynebu eich hawliad, cofiwch nad oes rhaid i chi siwio'r cwmni yn ei swyddfa gofrestredig. Gallai fod yn fwy cyfleus i chi siwio'r cwmni yn ei fan busnes (megis y siop neu swyddfa leol).

Hyd yn oed os caiff eich hawliad ei drosglwyddo, gallwch wneud cais iddo gael ei drosglwyddo i un o ganolfannau gwrandawiadau eraill y Llys Sirol os oes gennych resymau da dros wneud hynny. Mae'n bosib y bydd rhaid i chi dalu ffi am hyn. Ni ddylai bod rhaid i chi fynd i lys er mwyn i'ch cais gael sylw.

7. Alla' i hawlio llog ar y ddyled?

Mae'n bosib hefyd y gallech chi hawlio llog dan Ddeddf Hwyr-dalu Dyledion Masnachol (Llog) 1998 (gweler tudalen 9).

Mae'n bosib y gallech chi hawlio llog o'r dyddiad yr oedd y taliad yn ddyledus hyd at ddyddiad y dyfarniad (hyd yn oed os nad yw eich cytundeb gyda'ch cwsmer yn cynnwys llog). Mae rheolau'r llys yn caniatáu hyn, ac fe'i gelwir yn 'llog statudol'.

Os ydych chi'n ennill dyfarniad am £5,000 neu ragor, mae'n bosib bod hawl gennych i gael llog ar y dyfarniad.

I gael mwy o wybodaeth am Log Statudol, gweler y daflen **EX302 - Sut i wneud hawliad**, sydd ar gael am ddim o unrhyw un o ganolfannau gwrandawiadau y Llys Sirol, neu drwy ymweld â'n gwefan yn www.justice.gov.uk

8. Beth yw'r Ddeddf Hwyr-dalu?

Mae Deddf Hwyr-dalu Dyledion Masnachol (Llog) 1998 yn rhoi hawl statudol i bob busnes, pa faint bynnag y bo, a phob corff yn y sector cyhoeddus, hawlio llog ar ddyledion masnachol sy'n cael eu talu'n hwyr. I gael gwybodaeth lawn ynghylch y Ddeddf ewch i www.payontime.co.uk

Sut gall y Ddeddf Hwyr-dalu helpu busnesau?

Gall helpu mewn tair ffordd:

1. lle nad oes unrhyw hawl i log cytundebol yn bodoli, mae'r Ddeddf Hwyr-dalu yn rhoi hawl cyfreithiol i fusnesau hawlio llog ar ddyledion masnachol sy'n cael eu talu'n hwyr;
2. gall ganiatáu i gyflenwyr hawlio swm o iawndal am gostau dyled rhesymol, heblaw bod y cyflenwr ar fai; a
3. gall ganiatáu i gyflenwyr herio cytundebau a osodir arnynt nad ydynt yn cynnig iawn sylweddol am dalu'n hwyr. Gellir penodi cynrychiolwyr priodol i gyflawni hyn. (Os ydych chi'n fusnes bach neu ganolig ei faint)

Ydy pob busnes yn gallu defnyddio'r ddeddfwriaeth hon?

Mae pob busnes a phob corff yn y sector cyhoeddus yn gallu defnyddio'r ddeddf ddiwygiedig a'i hatodiadau gyda thaliadau hwyr sy'n deillio o gytundebau masnachol y cytunwyd yn eu cylch ar neu wedi 7 Awst 2002.

Beth yw dyled fasnachol?

Mae dyled fasnachol yn ddyled sy'n deillio o gytundeb a wnaed rhwng pob busnes a phob corff sector cyhoeddus, am gyflenwi nwyddau neu wasanaethau. Ers 7 Awst 2002, mae pob busnes, pa faint bynnag y bo, yn gallu hawlio llog ar daliad hwyr. Yn y cytundeb, gall y naill barti neu'r llall fod yn gwmni cyfyngedig, yn unig fasnachwr, yn gorff cyhoeddus, yn bartneriaeth, yn ymddiriedolaeth, yn gorff corfforaethol neu'n endid cyfreithiol arall, cyn belled ag y bo'r naill a'r llall yn ymwneud â gweithgarwch busnes drwy gyfrwng cytundeb (nid yw cytundebau gyda defnyddwyr yn dod dan delerau'r Ddeddf Hwyr-dalu).

A yw'r Ddeddf Hwyr-dalu yn berthnasol i ddyled o unrhyw faint?

Ydy. Mae iawndal a llog yng nghyswllt talu hwyr yn cronni ar ddyledion masnachol o unrhyw werth nas talwyd, heblaw bod cytundeb wedi'i daro ynghylch llog cytundebol.

Os ydych chi'n cychwyn eich hawliad ar-lein ar www.moneyclaim.gov.uk, ceir uchafswm o £100,000. Os yw eich hawliad yn ymwneud â mwy na hynny, bydd gofyn i chi gychwyn eich hawliad yn bersonol yn y Llys Sirol.

Alla' i herio cytundeb nad yw'n cynnig iawn sylweddol am dalu hwyr?

Gallwch. Os ydych chi'n fusnes bach neu ganolig ei faint (SME), gall corff cynrychioladol fynd i'r llys ar eich rhan.

Gan y gall hyn fod yn fwy cymhleth na hawliad syml am arian, fe'ch cynghorir i geisio cyngor cyfreithiol cyn cychwyn y ffurflen hawlio.

Alla' i gynnwys mwy nag un math o log yn fy hawliad i'r Llys Sirol?

Na. Dim ond cais am un math o log y gall unrhyw hawliad a wneir i'r llys ei gynnwys.

Os yw'r hawliad am log cytundebol neu daliad hwyr heb ei dalu, yna ni ellir ychwanegu unrhyw log ychwanegol at yr hawliad cyn dyfarniad.

Os oes angen cymorth arnoch chi i benderfynu a ydych chi'n gallu defnyddio'r Ddeddf Hwyr-dalu, mae'n bosib yr hoffech chi geisio cyngor pellach.

Sut dylwn i gynnwys llog talu hwyr yn fy hawliad?

Rhaid cynnwys manylion yr hawliad am log talu hwyr ym manylion yr hawliad, gan eu geirio fel a ganlyn:

"Mae'r hawlydd yn hawlio llog dan Ddeddf Hwyr-dalu Dyledion Masnachol (Llog) 1998 ar gyfradd o [y gyfradd gyfeirio ar gyfer y cyfnod o chwe mis pan ddaeth eich dyled yn hwyr (cyfradd ddelio swyddogol Banc Lloegr ar naill ai 30 Mehefin neu 31 Rhagfyr + 8%) o [y dyddiad pan ddechreuodd llog gronni] tan [y dyddiad rydych chi'n cychwyn yr hawliad] am y swm o £[nodwch y swm], gan barhau ar yr un gyfradd hyd at ddyddiad y dyfarniad neu daliad cynt ar gyfradd ddyddiol o [noder y gyfradd log ddyddiol]."

Sut dylwn i gynnwys iawndal yn deillio o dalu hwyr yn fy hawliad?

Mae taflen EX302 yn rhoi mwy o wybodaeth ynghylch sut i gychwyn ffurflen hawlio mewn llys.

Ceir manylion llawn ynghylch sut i gyfrifo'r gyfradd llog ar dalu hwyr yn www.gov.uk
Mae ar gael hefyd drwy ymweld â www.payonline.co.uk

Rhaid cynnwys cais am iawndal yn deillio o dalu hwyr ym manylion yr hawliad, gan ei eirio fel a ganlyn:

"Mae'r hawlydd yn hawlio iawndal yn deillio o dalu hwyr dan adran 5A Deddf Hwyr-dalu Dyledion Masnachol (Llog) 1998. Dan y tabl iawndal a nodir yn y ddarpariaeth hon, mae £[noder swm yr iawndal] yn ddyledus"

Mae'r tabl isod yn dangos faint o iawndal y mae hawl gennych ei dderbyn.

Maint y brif ddyled heb ei thalu	I'w dalu i'r credydwr
Hyd at £999.99	£40
£1,000 i £9,999.99	£70
£10,000 neu fwy	£100

9. Alla' i hawlio llog ar ôl y dyfarniad?

Gallwch chi ond hawlio llog cytundebol neu dalu hwyr ar ddyledion masnachol heb eu talu o'r dyddiad y dechreuodd y llog gronni hyd at y dyddiad y cafwyd dyfarniad.

Fodd bynnag,

- lle bo llog talu hwyr wedi'i hawlio yn y ffurflen hawlio, neu
- lle bo hawliad am log cytundebol wedi'i gynnwys yn y ffurflen hawlio ac y byddai'r busnes sy'n cymryd yr achos wedi gallu hawlio llog talu hwyr fel arall;

yna gallwch hawlio llog pellach ar gyfradd ddyled y dyfarniad (8% ar hyn o bryd) o ddyddiad y dyfarniad hyd at y dyddiad y cychwynnir camau gorfodi (er enghraifft, gwarant i weithredu).

Cofiwch po hiraf y bydd dyled yn parhau heb ei thalu, po fwyaf y tebygrwydd na chaiff hi byth ei thalu. Hyd yn oed wedyn, mae nifer o gredydwyr yn araf i weithredu, yn enwedig pan fydd y talwr gwael yn gwsmer pwysig. Os ydych chi'n penderfynu y gallai mynd i'r llys eich helpu i adennill eich dyled, dylech weithredu ar fyrder.

10. Beth fydd yn digwydd os nad yw fy hawliad yn cael ei wrthwynebu?

Os nad yw'r hawliad yn cael ei wrthwynebu (fel ag sy'n wir gyda'r rhan fwyaf o ddyledion busnes), gallwch ennill dyfarniad a chymryd camau gorfodi os bydd angen, heb gymorth cynrychiolydd cyfreithiol. Fel arfer, ni fydd angen i chi fynd i lys am wrandawriad.

Mae'r diagram ar ddiwedd y daflen hon yn dangos y camau sylfaenol o gychwyn y ffurflen hawlio i ennill dyfarniad pan fydd eich cwsmer naill ai yn:

- addef yr hawliad; neu
- ddim yn ymateb i'r ffurflen hawlio.

Os cafodd eich hawliad ei gychwyn drwy Hawlio Arian Ar-lein, gallwch ofyn am gael dyfarniad drwy ddiffyg, addefiad neu warant i weithredu wedi'i gychwyn ar-lein.

Gellir delio â'r mwyafrif o'r camau drwy'r post neu ar-lein.

Er enghraifft, os nad yw eich cwsmer yn ymateb i'r ffurflen hawlio, gallwch ofyn am y dyfarniad 'drwy ddiffyg' drwy lenwi'r ffurflen a anfonwyd atoch gan y llys pan gychwynwyd y ffurflen hawlio (yr hysbysiad cychwyn), ac os ydych chi'n gwybod dyddiad geni eich cwsmer, bydd y llys yn gofyn i chi roi hwn wrth ofyn am ddyfarniad drwy ddiffyg.

Gall eich cwsmer addef yr hawliad, ond gofyn am gael amser i dalu neu dalu fesul rhandaliadau. Gallwch ysgrifennu at y llys a gwrthwynebu os nad ydych chi'n cytuno, ond ni wnaiff y llys orchymyn am fwy nag y mae'n ystyried y gall eich cwsmer ei fforddio.

Gellir gael taflen **EX304 – Rwyf wedi cychwyn hawliad yn y llys - beth sy'n digwydd nesaf?** gan unrhyw ganolfan wrandawiadau Llys Sirol uchod neu drwy ymweld â'n gwefan yn www.justice.gov.uk

11. Beth fydd yn digwydd os yw fy hawliad yn cael ei wrthwynebu?

Gofynnir i chi a'r diffynnydd lenwi holiadur cyfarwyddiadau. Os yw eich hawliad am lai na £10,000 a'ch bod chi a'r diffynnydd yn nodi ar eich holiadur cyfarwyddiadau eich bod yn barod i roi cynnig ar gyfryngu, bydd Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain Gwasanaeth Llysoedd a Thriwiwnlysoedd EM yn ceisio cysylltu â chi i drefnu apwyntiad cyfryngu. Mae cyfryngu yn ffordd o geisio datrys eich anghydfod heb wrandawriad llys, a gall fod yn ffordd gyflymach a rhatach o gwblhau eich hawliad. Mae rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain ar gael yn ffurflen **EX730 – Y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain**.

Mae'r llys yn defnyddio'r wybodaeth yn eich holiadur cyfarwyddiadau i ddyrannu eich achos i'r trac priodol ar gyfer eich hawliad. Ceir tri thrac:

- y trac hawliadau bychain (fel arfer ar gyfer hawliadau dan £10,000);
- y trac cyflym (fel arfer ar gyfer hawliadau rhwng £10,000 a £25,000); a'r
- amldrac (fel arfer ar gyfer hawliadau dros £25,000 neu hawliadau mwy cymhleth).

Mae pob trac yn cynnig ffordd wahanol o ddelio â hawliadau, gan ystyried pethau fel eu gwerth (y swm o arian neu'r iawn a hawliad), cymhlethdod yr hawliad (faint o dystiolaeth sydd ei hangen, nifer y partion a thystion), a'r angen am adroddiadau arbenigol.

Rhoddir dyddiad gwrandawriad (neu dreial) i'ch hawliad, a dywedir wrthyfych beth i'w wneud i baratoi ar gyfer y gwrandawriad hwnnw.

Mae taflenni sy'n sôn am beth fydd yn digwydd pan fydd hawliad yn cael ei wrthwynebu a'r tri thrac ar gael o unrhyw ganolfan wrandawiadau Llys Sirol neu ar y wefan www.justice.gov.uk

Ond er bod eich hawliad wedi cyrraedd proses y llys erbyn hyn, nid yw hi'n rhy hwyr i ystyried ffyrdd amgen o ddatrys eich anghydfod. Mae GLITEM yn cynnig ystod o wasanaethau cyfryngu. Mae taflen **EX305 – Y trac cyflym a'r amldrac**, yn amlinellu'r opsiynau sydd ar gael os dyrennir eich hawliad i'r trac cyflym a'r amldrac. Ar gyfer hawliadau bychain, gall Wasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain Gwasanaeth Llysoedd a Thriwiwnlysoedd EM ddarparu apwyntiad cyfryngu rhad ac am ddim gyda chyfryngwr a benodir gan y llys. Cynhelir yr apwyntiad cyfryngu dros y ffôn, ac mae'n gyfle i chi ddatrys

eich anghydfod yn gynt na disgwyl am wrandawriad llys. Mae rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth Cyfryngu Hawliadau Bychain ar gael yn ffurflen **EX730**.

12. Beth fydd yn digwydd os bydd fy nghwsmer yn dal i beidio â thalu?

Mae'r dyfarniad yn gorchymyn eich cwsmer i dalu'n uniongyrchol i chi. Golyga hyn y byddwch yn gwybod yn gyflym a oes angen i chi ystyried camau pellach (gorfodi) i geisio cael eich arian ai peidio.

Cyn cymryd camau pellach, bydd gofyn i chi ystyried:

- pa ddulliau gorfodi i ofyn i'r llys eu defnyddio; ac
- a yw gorfodi yn debygol o fod yn werth chweil.

Gallwch gael mwy o wybodaeth am weithdrefnau gorfodi a'r ffurflenni sydd eu hangen arnoch o unrhyw ganolfan wrandawriadau Llys Sirol neu drwy'r wefan www.justice.gov.uk

Cofiwch, mae'n bwysig gweithredu ar fyrder os nad yw eich cwsmer yn talu. Ond cofiwch hyn hefyd:

- dim ond yn ôl eich cyfarwyddiadau chi y gall y llys gymryd camau gorfodi;
- rhaid i chi roi i'r llys yr wybodaeth sydd ei hangen arno (megis cyfeiriad eich cwsmer); a
- bydd angen i chi dalu ffioedd pellach.

13. Alla' i gael cymorth wrth benderfynu ynghylch gorfodi'r dyfarniad neu beidio?

Os gwnaeth eich cwsmer addef yr hawliad, a chynnig talu cyn dyfarniad, mae'n bosib eich bod chi eisoes yn gwybod rhywbeth am sefyllfa ariannol eich cwsmer. Gall hyn eich helpu i benderfynu a yw camau gorfodi yn debygol o fod yn werth chweil.

Os ydych chi'n gwybod dim, neu fawr ddim, gallwch ofyn i'r llys am 'orchymyn i gael gwybodaeth gan ddyledwr y dyfarniad'. Nid dull gorfodi mo hwn, ac ni fydd yn gorfodi eich cwsmer i dalu. Ond mae'n ffordd o holi eich cwsmer am incwm neu drosiant, asedau a gwariant.

Os yw eich cwsmer yn gwmni cyfyngedig a chithau'n gwybod enw un o'i gyfarwyddwyr neu swyddog arall, gallwch gael gwybodaeth am asedau'r cwmni drwy ofyn am orchymyn i gael gwybodaeth gan gyfarwyddwr neu swyddog arall yn y cwmni. Fel arall, gallai pori drwy'r Gofrestr (gweler tudalen 6) eich helpu i benderfynu a yw camau gorfodi yn debygol o fod yn werth chweil neu beidio.

Cofiwch, pa bynnag wybodaeth y dowch o hyd iddi:

- ni fydd y llys yn gallu cael eich arian os nad oes dim arian a/neu dim byd arall o werth ganddo;
- gall fod yn anodd gorfodi dyfarniad yn erbyn cwmni cyfyngedig gan mai dim ond yn erbyn asedau sy'n eiddo uniongyrchol i'r cwmni ei hun y gallwch chi hawlio.

Os yw eich cwsmer yn gwmni cyfyngedig a'i bod hi'n ymddangos yn annhebygol y gall dalu'r dyfarniad yn eithaf sydyn (dyweder, mewn tri mis), gall hyn awgrymu problemau llif arian. Dan amgylchiadau o'r fath, gallech ddewis ystyried camau dirwyn i ben (Ansolfedd). Fodd bynnag, gall y camau hyn fod yn gymhleth ac yn ddrud, a dylech geisio cyngor cyfreithiol cyn gwneud hynny.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi gychwyn fy ffurflen hawlio?

